# Amserlen Penderfyniadau

## Is-bwyllgor Trwyddedu

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2023**

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 17 Ionawr 2023, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Allan Morris, Janet Cleverly

**LIC PAN 01/23**

**<u>Adolygiad o Drwydded Safle o dan Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003, The Scrum Half, 111 Newport Road, Casnewydd. NP19 8BZ</u>**

**<u>Penderfyniad</u>**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn ofalus ynghyd â chanlyniadau'r broses gyfryngu rhwng deiliad y drwydded a'r Heddlu fel yr Awdurdod Cyfrifol. Roedd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu rai pryderon ynghylch gallu deiliad y drwydded i sicrhau nad oedd y problemau gyda'r tenantiaid blaenorol yn cael eu hailadrodd ond eu bod yn deall bod yr Awdurdod Cyfrifol a'r tîm Trwyddedu yn gweithio gyda deiliad y drwydded i helpu i atal hyn.

Cytunodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i argymhellion i ddiwygio'r drwydded gan yr Heddlu a nododd y byddai'r lleoliad yn cael ei fonitro'n agos gan y tîm Trwyddedu a'r Awdurdodau Cyfrifol.

Mae'r diwygiadau i Drwydded y Safle fel a ganlyn:

- Bod tîm rheoli cyfan y safle trwyddedig yn gadael, a bod rheolwyr / staff yn peidio â gweithredu mewn unrhyw ffordd gyda'r safle trwyddedig.
- Mae'r Goruchwyliwr Safle Dynodedig (GSD) yn cael ei dynnu o'r drwydded safle a'i ddisodli gan GSD newydd.
- Bod yr holl weithgareddau Trwyddedig yn dod i ben am 23:30 o'r gloch ac y bydd y safle yn cau am 00:00 o'r gloch heblaw am Nos Galan pan gaiff Gweithgareddau Trwyddedig barhau tan 02:30 o'r gloch a chau am 3:00am.

Dymunai'r Is-bwyllgor Trwyddedu atgoffa Deiliad y Drwydded fod sancsiynau cryfach ar gael i'r panel a'i fod yn gobeithio y byddai deiliad y drwydded yn chwarae rhan weithredol mewn sicrhau na chaiff amodau'r drwydded eu torri eto. Mae disgwyliad clir gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu fod y safle yn sicrhau ei fod yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

**Adolygiad o Drwydded Safle o dan Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003, The Pod, Rodney Road, Casnewydd NP19 0AD**

**Penderfyniad**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn ofalus ynghyd ag adroddiad Swyddog yr Amgylchedd ac amgylchiadau lliniarol Deiliaid Trwydded a Goruchwyliwr Dynodedig y Safle. Bu'r Is-bwyllgor Trwyddedu hefyd yn ystyried ei bolisi trwyddedu ei hun ochr yn ochr â chanllawiau Deddf Trwyddedu'r Swyddfa Gartref 2003 yn benodol o amgylch amcan trwyddedu Atal Niwsans Cyhoeddus.

Cydnabu'r Is-bwyllgor Trwyddedu fod rheolwyr y lleoliad wedi rhoi rhagofalon digonol ar waith ar ôl dysgu am y cwynion ac yr ymddengys eu bod yn barod i weithio'n gydweithredol gyda thîm Iechyd a Thrwyddedu'r Amgylchedd, ond roedd hefyd yn cydnabod bod lleoliad y safle o fewn ardal breswyl.

Dywedodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu fod dyletswydd arnyn nhw i fod yn ymwybodol o'r preswylwyr ond eu bod yn deall bod y lleoliad yn lleoliad diogel heb unrhyw sylwadau'n cael eu gwneud gan yr Heddlu, a sylwadau cadarnhaol gan "bersonau eraill" yn yr adroddiad. Gobaith yr Is-bwyllgor Trwyddedu oedd y bydd yn parhau i fod yn un o fusnesau llwyddiannus Casnewydd.

Cytunodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y byddai'r Drwydded Safle yn cael ei diwygio fel a ganlyn:

Byddai amod 9 yn cael ei ddiwygio i gynnwys y frawddeg ganlynol:
"Dim ond rhwng 11:00 a 22:30 o'r gloch y dylid caniatáu cerddoriaeth fyw"

Byddai amod 11 yn cael ei ddiwygio i gynnwys y frawddeg ganlynol:
"Ni ddylai unrhyw siaradwyr allanol gael eu lleoli yn yr ardal allanol; mae hyn yn cynnwys siaradwyr ar gyfer darllediad teledu byw".

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r lleoliad gysylltu â'r tîm Trwyddedu i gytuno ar lefel briodol i chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio.

Nodwyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu bod potensial am niwsans o'r ardal allanol yn y lleoliad, ac nad oedd yr ardal allanol yn rhan o'r ardal drwyddedadwy bresennol. Argymhellodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu fod deiliad y drwydded yn cysylltu ag adran Gynllunio'r Cyngor i gael cyngor cynllunio ochr yn ochr â Thîm Trwyddedu'r Cyngor ac Iechyd yr Amgylchedd ynghylch y maes hwn yn sgil tynnu'n ôl rheoliadau Covid fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.